PWYLLGOR PENODI A

DYDD MERCHER, 1AF MAI, 2019

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd E. Dole [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr:
D.M. Cundy, S.A. Curry, G. Davies, E. Dole, H.A.L. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, P. Hughes-Griffiths, P.M. Hughes, R. James, D.M. Jenkins, A. Lenny, K. Madge, L.M. Stephens, E.G. Thomas a J.E. Williams

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

Mr P. Thomas	-	Prif Weithredwr Cynorthwyol
Mr D. Richards	-	Rheolwr Datblygu Sefydliadol
Mrs M. Evans Thomas	-	Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol:
Mr M. Williams o SHL

Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 9.00 yb - 11.55 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. LLOFNODI FEL GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR Y 7FED TACHWEDD, 2017

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Penodi "A" a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2017, gan eu bod yn gywir.

4. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. DERBYN NODIADAU GWEITHREDU CYFARFOD O'R PANEL RHESTR FER A GYNHALIWYD AR Y 3YDD EBRILL 2019

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, oherwydd y byddai'r ymgeiswyr yn disgwyl yn rhesymol na fyddai eu gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i'r cyhoedd ac felly bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr

eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD bod Nodiadau Gweithredu'r Panel Rhestr Fer a gynhaliwyd ar 3 Ebrill, 2019 yn cael eu derbyn.

6. DERBYN ADBORTH Y CANOLFAN ASESU A CHYFWELD YR YMGEISWYR AR Y RHESTR FER AR GYFER SWYDD Y PRIF WEITHREDWR A GWNEUD ARGYMHELLIAD I'R CYNGOR A FYDD YN CYFARFOD YN DDIWEDDARACH Y DIWRNOD HWNNW (2.00 P.M.) MEWN PERTHYNAS AG APWYNTIAD Y PRIF WEITHREDWR/PENNAETH Y GWASANAETH CYFLOGEDIG.

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, oherwydd y byddai'r ymgeiswyr yn disgwyl yn rhesymol na fyddai eu gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i'r cyhoedd ac felly bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â'r ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer swydd y Prif Weithredwr a chafodd adborth ar ganlyniad proses y Ganolfan Asesu.

PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR fod ymgeiswyr 1 a 3 yn mynd ymlaen i gael cyfweliad gan y Cyngor Llawn ar gyfer swydd y Prif Weithredwr/Pennaeth y Gwasanaeth Taledig.

6.1. YMGEISYDD 1

6.2. YMGEISYDD 2

6.3. YMGEISYDD 3

6.4. YMGEISYDD 4

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**